

GWASANAETHAU CYFLOGWYR



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

STUDENT SERVICES AND EMPLOYABILITY

GWASANAETHAU MYFYRWYR
A CHYFLOGADWYEDD





DROS
5000 O
GYFLOGWYR
YN GWEITHREDU
TRWY METHUB

HYSBYSEBWYD DROS



1200 O
BROFIADAU GWAITH
AC INTERNIAETHAU
BOB BLWYDDYN

HYSBYSEBWYD DROS

2000 O
SWYDDI
GRADDEDIG
BOB BLWYDDYN



RYDYM YN
GWNEUD MWY NA



50,000 O
ARGRAFFIADAU MISOL
AR DRAWS EIN CYFRIFON
CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

10,675
O FYFYRWYR



1,340
O FYFYRWYR
RHYNGWGLADOL

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES

GOOD
UNIVERSITY
GUIDE
2021

PRIFYSGOL Y
FLWYDDYN
YNG
NGHYMRU

CYFLWYNIAD



Ym Met Caerdydd, mae adeiladu perthynas gref a chynaliadwy gyda chyflogwyr yn rhan allweddol o'n busnes. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o fusnesau bach a chanolig, busnesau mawr ac elusennau, gan eu cysylltu â'n myfyrwyr a'u cynorthwyo i ddod o hyd i dalent yn y dyfodol. Mae gweithio ar y cyd gyda chyflogwyr hefyd yn caniatáu i ni ddeall anghenion y diwydiant a defnyddio'r wybodaeth hon i baratoi ein myfyrwyr yn ddigonol ar gyfer y farchnad lafur i raddedigion.

Manylir yn y llyfryn hwn ar yr amrywiaeth eang o wasanaethau a gynigiwn. Bydd y Tîm Gwasanaethau i Gyflogwyr yn gweithio'n agos gyda chi, gan eichparu â gwasanaeth a'i deilwra i sicrhau ei fod yn diwallu eich anghenion busnes. P'un a ydych chi'n gobeithio hysbysebu cyfle, codi eich proffil ar y campws neu fynd i'r afael â bwlch sgiliau, byddem wrth ein bodd yn gweithio gyda chi ac yn edrych ymlaen at eich cysylltu â'n poblogaeth dalentog, amrywiol ac wedi'i gyrru gan werthoedd a'n graddedigion.

Rebecca James

Pennaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr

AM BRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

Rydym yn olrhain ein hanes yn ôl i 1865, pan agorodd yr Ysgol Gelf am y tro cyntaf yn yr Hen Lyfrgell Rydd yng Nghaerdydd.

Ers datblygu i fod yn Brifysgol, rydym wedi parhau i fod â'i gwreiddiau yng Nghymru tra'n darparu addysg sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac wedi'i gyfeirio'n broffesiynol i fyfyrwyr o bob cwr o'r byd.

Mae'r Brifysgol bellach yn cynnwys pum Ysgol:

- ▶ **Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd**
- ▶ **Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd**
- ▶ **Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd**
- ▶ **Ysgol Reoli Caerdydd**
- ▶ **Ysgol Dechnolegau Caerdydd**

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod pob myfyriwr yn cyflawni ei botensial i wneud cyfraniadau rhagorol ar lefel gradd i'w genhedlaeth ei hun a chenedlaethau'r dyfodol.



CYSWLLT AR Y CAMPWS

FFEIRIAU GYRFAOEDD

Mae ein ffeiriau gyrfaoedd yn darparu llwyfan perffaith i chi ymgysylltu ag amrywiaeth o fyfyrwyr a thrafod eich cyfleoedd mewn lleoliad anffurfiol.



Mae'r gefnogaeth a gawsom gan Met Caerdydd wedi caniatáu i ni ddod o hyd i fyfyrwyr sy'n addas iawn ar gyfer y busnes. Daw'r myfyrwyr â syniadau newydd a ffres a all wella unrhyw fusnes sy'n edrych i dyfu ar unwaith.



Dominic Bonaker,
Cyfarwyddwr, WeAreOdyssey

FFAIR GYRFAOEDD A LLEOLIADAU

Y digwyddiad i gael sylwi, mae'r digwyddiad hwn wedi'i anelu at bob myfyriwr ym mhob blwyddyn sy'n ceisio trafod llwybrau gyrfa posibl. Mae arddangoswyr o amrywiaeth o sectorau gyrfa yn mynychu i hyrwyddo cynlluniau i raddedigion, interniaethau a lleoliadau. Mae tua 1500 o fyfyrwyr a 100 o gyflogwyr yn mynychu'r digwyddiad yn flynyddol.

FFEIRIAU SWYDDI RHAN-AMSER A THYMHOROL

Mae'r ffair swyddi rhan amser yn rhedeg ar y ddau o'n campysau bob blwyddyn ac yn denu amrywiaeth eang o gyflogwyr. Mae'r ffeiriau hyn yn cael eu mynychu'n dda ac yn llawn cymysgedd amrywiol o fyfyrwyr o bob rhan o'r Brifysgol. Mae'r digwyddiadau'n rhoi cyfle i gyflogwyr ryngweithio â myfyrwyr a dod o hyd i dalent i lenwi swyddi rhan-amser dros dro a pharhaol.

Rydym hefyd yn cynnal amrywiol ffeiriau gyrfaoedd wedi'u teilwra drwy gydol y flwyddyn academiaidd, caiff y rhain eu cefnogi gan gyflogwyr o nifer o ddiwydiannau, gan gynnwys:

- ▶ **Gwyddoniaeth**
- ▶ **Technoleg**
- ▶ **Busnes**
- ▶ **Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
- ▶ **Addysg**
- ▶ **Chwaraeon**



FFORYMAU

Mae fforymau yn ddigwyddiadau ar ffurf panel gyda thua 3 o gynadleddwyr yn bresennol, gyda phob un yn rhoi cyflwyniad byr wedi'i ddilyn gan sesiwn holi ac ateb. Mae siaradwyr yn cynnig awgrymiadau a mewnwelediad o'u profiad eu hunain o ddatblygu llwybr gyrfa, sy'n helpu myfyrwyr i nodi eu dyheadau gyrfaol eu hunain.

Mae'r mathau hyn o ddigwyddiadau yn rhoi cyfle i gyflogwyr hyrwyddo eu diwydiant ac ymgysylltu â thalent bosibl yn y dyfodol.



STONDINAU CYFLOGWR DROS DRO

Os ydych chi'n chwilio am gyfle i ymgysylltu â'n myfyrwyr i hyrwyddo eich brand, gallwch wneud hynny yn un o'n hardaloedd prysur i ymwelwyr ar y campws. Mae hwn yn gyfle gwerthfawr i gael sgwrs anffurfiol gyda myfyrwyr i hyrwyddo eich swyddi gwag, mesur ymwybyddiaeth o frand, profi'r farchnad a nodi talent ar gyfer recriwtio yn y dyfodol. Opsiwn ychwanegol yw prynu eitemau o'n caffi prysur.



Roeddem yn hapus iawn i groesawu Hannah ac roedd hi'n gaffaeliad gwyh i'r tîm gan wneud darn o waith a oedd wedi bod angen sylw am gyfnod. Roedd hi hefyd yn ffit dda i'r tîm gan ddangos hunan-gymhelliant da ac yn gallu gweithio'n dda heb fawr o oruchwyliaeth.



Tracy Williams, Pennaeth TG, Cymdeithas Tai Unedig Cymru



CYFLWYNIADAU CYFLOGWYR

Eisiau codi o flaen ein myfyrwyr a hyrwyddo eich cynllun, sefydliad neu sector? Mae cyflwyniad gan gyflogwr yn caniatáu i chi wneud yn union hynny. Gallwch amlygu eich swyddi gwag presennol, amlinellu eich prosesau recriwtio a rhwydweithio gyda'r myfyrwyr cywir ar gyfer eich neges. Dyma'r lwyfan i chi, fodd bynnag, os oes angen ni, fe fyddwn yma i weithio gyda chi i gael pethau'n iawn.

SESIYNAU SGILIAU CYFLOGWYR

A ydych yn chwilio am gyfle i gefnogi datblygu sgiliau yn eich rhanbarth neu geisio dod o hyd i ffordd o gefnogi ymgeiswyr i gael swyddi ar lefel gradd? Ffantastig, allen ni ddim ei wneud hebddyn nhw. Gofynnwn fod sesiynau sgiliau a arweinir gan gyflogwyr yn rhyngweithiol, gyda'r nod o ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd ein myfyrwyr. Maent yn ein cefnogi i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau a hefyd yn cynyddu amlygrwydd cyflogwyr ymhlith ein myfyrwyr. Sesiynau sgiliau yw'r cyfle perffaith i gysylltu â'n myfyrwyr a'u helpu i ddatblygu sgil neu sylfaen wybodaeth benodol. Mae ein tîm wrth law i drafod hyn gyda chi.

NID BETH RYDYCH CHI'N CHWILIO AMDANO?

Ydych chi'n edrych i sefyll allan o'r dorf a rhedeg gweithgaredd pwrpasol ar y campws? Hoffech chi weithio gyda'r dalent sydd gennym ni yma yn y Brifysgol? Rydym bob amser yn agored i syniadau newydd sydd o fudd i fyfyrwyr a chyflogwyr, ond cysylltwch â ni os hoffech drafod prosiect.

CYSYLLTU AR-LEIN

HYSBYSEBU SWYDDI GWAG

Rydym yn cynnig gwasanaeth rhad ac am ddim, sy'n eich galluogi i hysbysebu eich cyfleoedd drwy ein system ar-lein, MetHub. Mae myfyrwyr Met Caerdydd yn defnyddio MetHub o'r diwrnod cyntaf, felly gall defnyddio'r gwasanaeth hwn helpu i wneud eich swyddi gwag yn fwy gweladwy i gynulleidfa darged berthnasol.

Cofrestrwch drwy ein tudalen cyflogwyr: methub.cardiffmet.ac.uk/employers

Mae'r math o swyddi gwag y gallwch eu hyrwyddo yn cynnwys:

- ▶ Swyddi gwag i raddedigion
- ▶ Interniaethau am dâl
- ▶ Lleoliadau a phrofiad gwaith
- ▶ Gwirfoddoli
- ▶ Cyfleoedd rhyngwladol
- ▶ Rolau rhan amser

BWLETIN SWYDDI GWAG

Mae ein bwletin swyddi wythnosol yn eich rhoi mewn cysylltiad â'r myfyrwyr sy'n ymgysylltu fwyaf â ni, gan ganiatáu i chi hysbysebu swyddi gwag penodol neu ymgyrchoedd recriwtio.

NEGESEUON E-BOST WEDI'U TARGEDU

Mae negeseuon e-bost wedi'u targedu yn ffordd effeithiol o farchnata cyfleoedd i garfan benodol o fyfyrwyr. Gall derbynwyr gael eu hidlo gan feini prawf amrywiol gan gynnwys grŵp blwyddyn a chwrs. Os ydych chi'n chwilio am ffordd gost effeithiol o ddweud wrth ein myfyrwyr am eich swyddi gwag, digwyddiadau, gweminarau neu unrhyw beth arall, yna mae negeseuon e-bost wedi'u targedu yn ddewis gwych. Cysylltwch â ni i gael gwybod mwy.

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Gyda chyrhaeddiad misol o 50,000 o ddefnyddwyr ar gyfartaledd ar draws ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, rydym yn hapus i ddilyn, rhannu a aildrydar felly cofiwch gysylltu!

▶▶ Rydym wedi gweithio gyda thîm lleoliadau Prifysgol Met Caerdydd ers dros 10 mlynedd. Mae'r lleoliadau wedi bod o fudd i ni fel cyflogwr bach a'r myfyrwyr, sydd wedi helpu mewn ystod o feysydd, gan gynnwys prosiectau ymchwil, marchnata, dadansoddi cynllunio busnes a rheoli digwyddiadau, yn ogystal â thasgau gwasanaeth cwsmeriaid gweithredol a gwasanaethau ariannol. Fel sefydliad bach, mae'n amlwg ein bod wedi elwa o'r lleoliadau.

Leanne Herberg,
Prif Weithredwr, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro



INTERNIAETHAU A ARIENNIR

Mae Met Caerdydd yn bartner gyda Santander er mwyn cynnig interniaethau wedi'u hariannu i fyfyrwyr a graddedigion. Mae hyn yn creu cyfle i fusnesau fanteisio ar sgiliau a'r ddawn sydd gan Met Caerdydd l'w gynnig a rhoi cyfle i fyfyrwyr ennill profiad mawr ei angen yn y gweithle. Os ydych chi am gyflogi interniaid ond angen rhywfaint o gefnogaeth i ariannu'r swydd, cysylltwch â'n tîm i drafod eich anghenion a'r hyn y gallwn ei gynnig.



Roedd y lleoliad hwn yn hwylus ac yn werthfawr iawn i fi. Roeddwn i'n teimlo fy mod wedi cael cefnogaeth i gymryd rhan gymaint â phosib a chefais adborth drwyddi draw.



**Myfyriwr Therapi Iaith
a Lleferydd Blwyddyn 2**

PROFIAD GWAITH A LLEOLIADAU



Canfûm fod y broses gyfan wedi rhedeg yn esmwyth ac roedd fy newis lleoliad yn amlwg yn cael ei ystyried. Hefyd roedd y wybodaeth am yr hyn oedd yn ofynnol gennyf i fel myfyriwr yn glir.



Darparwr lleoliadau ALEX

GO WALES

Os oes gan eich sefydliad ymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth, cysylltwch â thîm GO Wales ym Met Caerdydd i drefnu profiad gwaith i'n myfyrwyr. Mae tîm GO Wales yn gweithio gyda chyflogwyr a myfyrwyr i sicrhau bod y lleoliad yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus. Gallant hefyd gynnig cyllid o 50% tuag at gyfleoedd profiad gwaith â thâl (4-6 wythnos o hyd).

Ewch i www.cardiffmet.ac.uk/gowales i gael rhagor o wybodaeth neu e-bostiwch gowales@cardiffmet.ac.uk

LLEOLIADAU

Ym Met Caerdydd, rydym yn annog ein myfyrwyr i ymgymryd ag amrywiaeth o leoliadau gwaith gan ein bod yn cydnabod pwysigrwydd ennill profiad gwerthfawr a sgiliau cyflogadwydd o fewn maes dewisedig.

Yn aml, mae'n rhan hanfodol o radd, gall lleoliadau gwaith israddedig ac ôl-raddedig fod yn rhai tymor byr ac yn aml yn cael eu cwblhau yn ystod y tymor neu fel rhan o ' flwyddyn mewn diwydiant'.

Gall ein myfyrwyr hynod frwdfrydig ychwanegu gwerth at eich sefydliad drwy ddefnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth bynciol, i ddod â phersbectif newydd i'ch busnes.

I gael rhagor o wybodaeth am ofynion a meini prawf lleoliadau, yn ogystal â sut i gael gafael ar dalent o fewn Met Caerdydd, cysylltwch â ni ar **employerservices@cardiffmet.ac.uk**

CYFLOGI AWTISTIAETH

Rydym wedi partneru gyda Santander ac Ambitious About Autism i gyflwyno'r prosiect Cyflogi Awtistiaeth. Drwy'r prosiect ein nod yw gwella canlyniadau cyflogaeth i raddedigion awtistig drwy eu cefnogi i gwblhau interniaethau sy'n talu'n llawn. Bydd cyflogwyr yn derbyn hyfforddiant ar y ffordd orau o gefnogi myfyrwyr ag awtistiaeth yn y gweithle, ynghyd â chymorth i recriwtio myfyriwr priodol a chyllid llawn ar gyfer yr interniaeth. Mae cymryd rhan yn y cynllun hwn yn ffordd gost-effeithiol i chi gael gafael ar dalent ychwanegol y gallech fod wedi bod yn ei golli fel arall, yn ogystal â chael gafael ar y cymorth sydd ei angen i ddarparu ar gyfer y interniaeth yn effeithiol. Cysylltwch â'r tîm os hoffech gael y cyfle i fod yn rhan o'r cynllun.

►► Mae'r Interniaeth wedi rhagori ar fy nîsgwyliadau.

Rwyf bob amser yn dysgu mwy am fy rôl a'r diwydiant ffasiwn ehangach yn ei gyfanrwydd. Rwyf wedi derbyn llawer o gefnogaeth gan fy mentor ac rydym yn cael sesiynau dal i fyny wythnosol.

Rwyf wedi tyfu i mewn i'r rôl ac mae wedi hybu fy ngwybodaeth farchnata a bydd yn fy helpu yn fy nhrydedd flwyddyn yn y brifysgol.

**Myfyriwr Ffasiwn Israddedig,
interniaeth gyda
Michael Kors**



PAM DEWIS MET CAERDYDD

LLUNIO EICH DYFODOL

Yma ym Met Caerdydd, mae ein myfyrwyr yn deall gwerth ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol i wella eu sgiliau ac i sefyll allan o'r dorf. Mae Llundio eich Dyfodol yn fenter sy'n helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau drwy ddarparu amserlen gynhwysfawr o wahanol ddigwyddiadau, fforymau, gweminarau, ffeiriau a sesiynau sgiliau drwy gydol y flwyddyn a thrwy annog myfyrwyr i gael profiad gwerthfawr drwy ymuno â chlybiau a chymdeithasau, gwirfoddoli eu hamser ac ymgymryd â phrofiad gwaith neu interniaethau. Os hoffech chi helpu ein myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau, cysylltwch â ni i gael gwybod sut i fod yn rhan o Llundio eich Dyfodol.

▶▶ Yn ystod fy nghyfnod gyda Heddlu De Cymru, rwyf wedi ennill llawer o brofiad gwerthfawr. Rwyf wedi gallu cymhwyso'r theori a ddysgwyd yn y brifysgol i'm gwaith, sydd wedi arwain at drefnu digwyddiadau amrywiol yn ystod fy'n interniaeth. ◀◀

**Myfyrwr Rheoli Digwyddiadau
Israddedig, Interniaeth gyda
Heddlu De Cymru**





GWASANAETH GYRFAOEDD

Mae ein gwasanaeth gyrfaedd yn darparu cyngor, arweiniad a chymorth arbenigol i bob myfyriwr sy'n bresennol ym Met Caerdydd. Gyda mynediad 24/7 at adnoddau, gweithdai sgiliau rheolaidd a phenodiadau, rydym yn gwybod bod gan ein myfyrwyr y sgiliau proffesiynol a'r hyder sydd eu hangen i wneud argraff gadarnhaol barhaol ar eich busnes.

▶▶ Hoffwn ddymuno'r gorau iddi gyda'i blwyddyn olaf yn y Brifysgol. Mae hi wedi bod yn aelod anhygoel o'r tîm ac yn gydweithiwr rhyfeddol. Rwy'n gwerthfawrogi'r holl waith caled ac ymroddiad y mae hi wedi'i wneud i greu profiadau cofiadwy i'n cwsmer a'n partneriaid yn fyd-eang. ◀◀

**Adborth Cyflogwr YRC -
Myfyriwr Interniaeth
Ddiwydiannol 2il Flwyddyn**

▶▶ Roedd [Carly] yn bleser i weithio gyda hi. Dibynadwy, prydlon, gweithgar a chyfeillgar iawn, roedd yn bleser ei chael hi am yr ychydig fisoedd yr oedd gyda ni. Buom yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu llawlyfr i'n gwirfoddolwyr ac roedd ei chyfraniad i' fy helpu i gyda'r darn hwn o waith yn sylweddol. Ni fyddwn wedi cyflawni unrhyw le yn agos cymaint heb ei chefnogaeth. ◀◀

**Sian Layton, Cydlynnydd
Gwirfoddolwyr, Amgueddfa
Genedlaethol Cymru**



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

STUDENT SERVICES AND EMPLOYABILITY

GWASANAETHAU MYFYRWYR
A CHYFLOGADWYEDD



I gael mwy o wybodaeth am ein gwasanaethau, cysylltwch â ni:



07810 773814 and 07810 756381



employerservices@cardiffmet.ac.uk



www.cardiffmet.ac.uk/careers



@CMetCareers

Roedd yr holl wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg ei argraffu (Rhagfyr 2020). Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar ein gwefan.